STEDDFOTA
Cylchlythyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
Rhif 78 Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau Tachwedd 2026

DATHLU GWIRFODDOLWYR



Fel rhan o wythnos lwyddiannus Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las, cynhaliwyd y seremoni flynyddol i gydnabod cyfraniad eithriadol gwirfoddolwyr sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth clodwiw i'w heisteddfodau lleol.

Ym mhabell groesawgar Llywodraeth Cymru ar faes y Garreg Las, daeth cynulleidfa frwd at ei gilydd i ddathlu'r unigolion hyn a fu'n sail i gynnal traddodiad eisteddfodol ar draws cymunedau Cymru.

Roedd yr awyrgylch yn llawn balchder, â'r lle yn orlawn o gefnogwyr oedd yn amlwg yn gwerthfawrogi cyfraniadau ei gilydd. Agorwyd y digwyddiad gan Brif Weinidog Cymru, Rhun ap Iorwerth, a roddodd anerchiad pwrpasol a chalonogol yn tynnu sylw at werth y gwaith gwirfoddol sy'n cynnal ac yn cyfoethogi bywyd diwylliannol y wlad.

Llywiwyd y cyflwyniadau gan Angharad Mair, a braf oedd cael ei chwmni eleni eto wrth iddi arwain y seremoni yn ei ffordd naturiol a chynnes.

Dymuna'r Gymdeithas ddiolch o galon eto i'r unigolion arbennig hyn, gan gydnabod eu hymroddiad a'u gwasanaeth sy' wedi bod yn sylfaen i lwyddiant eisteddfodau lleol dros y blynyddoedd, a'r effaith gadarnhaol y maent wedi'i gael ar ddiwylliant Cymraeg a bywyd eu cymunedau.

Tro eisteddfodau i'r de o Aberystwyth oedd hi i gynnig enwebiadau eleni, sy'n golygu felly mai eisteddfodau'r gogledd fydd yn gwneud hynny erbyn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn Meirionnydd 2027. Edrychwn ymlaen!

CYSTADLAETHAU

2026–2027

Dyma'r 3 cystadleuaeth fydd yn rhedeg ar y cyd gyda'r Eisteddfod Genedlaethol am y flwyddyn sydd i ddod. Edrychwch allan amdanynt yn nhestunau eisteddfodau lleol.







Lansiwyd cystadleuaeth yr Ensemble Sioe Gerdd mewn digwyddiad hyfryd ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, gyda sgwrs a chân yng nghwmni Lili Mohammad, Nansi Rhys Adams a Glain Rhys.



NEWYDDION DA GAN YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN

Mewn cyfarfod diweddar o'r Ymddiriedolwyr penderfynwyd codi'r uchafswm grant i Eisteddfodau Lleol o £500 i £600. Mae hyn yn gydnabyddiaeth o'r gwaith aruthrol a wneir gan bwyllgorau'r eisteddfodau hynny ar hyd a lled Cymru i gynnal a hybu'r diwylliant Cymraeg yn eu cymunedau.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Ymddiriedolaeth wedi cefnogi tua 70 o eisteddfodau'n flynyddol gan rannu nawdd o bron i £100,000. Gall unrhyw Eisteddfod leol yng Nghymru gyflwyno cais, ar yr amod bod yr Eisteddfod wedi cael ei chynnal unwaith, ac wedi'i chofrestru fel elusen, NEU, bod yr Eisteddfod yn cael ei threfnu o dan adain corff sy'n elusen gofrestredig neu'n elusen eithriedig (e.e. eglwys neu neuadd bentref).
Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfrannu 30% o werth y gwobrau ariannol a dalwyd yn yr Eisteddfod flaenorol ac, o nawr ymlaen, hyd at uchafswm o £600.

Mae mwy o wybodaeth a ffurflen gais ar gael ar ein gwefan https://www.jamespantyfedwen.cymru/eisteddfodau.html .

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen Foundation

Hefin Jones
Ysgrifennydd Gweithredol
Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

HYFFORDDIANT GRANTIAU



Aberystwyth: 30.01.27

Bydd hyfforddiant 'Ymgeisio am grantiau' yn cael ei gynnal ar Ionawr 30, yn Neuadd y Waun Aberystwyth am 1yp.

Bydd croeso i bob eisteddfod sy'n aelod o'r Gymdeithas i anfon cynrychiolwyr i dderbyn hyfforddiant ar sut i chwilio am grantiau, yn ogystal â chyngor ymarferol ar lenwi ffurflenni cais.

Bydd manylion llawn yn cael eu hanfon ar e-bost at ysgrifenyddion yn agosach at y dyddiad, ond os hoffech dderbyn y wybodaeth yn uniongyrchol, cysylltwch â sian@steddfota.cymru

SYNIAD AM 'STEDDFOD?



AWYDD SEFYDLU NEU ADFYWIO EISTEDDFOD LEOL?

ANGEN ARWENIAID?

Ry'n ni yma i helpu. Cysylltwch am sgwrs.

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

popeth@steddfota.cymru

YSBRYDOLI CYMUNEDAU

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Yn Llenyddiaeth Cymru, rydym wrth ein bodd yn gweld cystal awch dros lenyddiaeth trwy Gymru ben baladr gydol y flwyddyn. Hoffem dynnu eich sylw at gyllid sydd ar gael i'ch helpu i gynnal digwyddiadau llenyddol.
Trwy ein Cronfa Ysbrydoli Cymunedau gallwn gynnig hyd at 75% o'r ffioedd a'r costau teithio sy'n cael eu talu i awduron ar gyfer sgyrsiau a darlithoedd ar bynciau llenyddol, a gweithdai ysgrifennu creadigol. Gall y digwyddiadau hyn gael eu cynnal wyneb yn wyneb neu yn rhithiol.



Dyma un enghraifft o ddigwyddiad a drefnwyd gan Eisteddfod Rhydlewis, a dderbyniodd nawdd Ysbrydoli Cymunedau ar gyfer cyfres o weithdai creu barddoniaeth a gynhaliwyd gyda'r Prifardd Aneirin Karadog, yn Ysgol Bro Teifi ac Ysgol T Llew Jones fis Ebrill 2026. Bu'r disgyblion yn cyd-greu barddoniaeth a rap, ac fe berfformiwyd eu gwaith yn Eisteddfod Rhydlewis. "Yn ôl yr adborth gan y ddwy ysgol, cafwyd sesiynau llwyddiannus iawn, gyda'r plant yn ymateb yn dda i Aneirin Karadog ac yn mwynhau'r broses o gyd-farddoni," medd Siân Davies, ar ran Eisteddfod Rhydlewis.
Os ydych chi'n trefnu digwyddiadau llenyddol yn y gymuned ac yn awyddus i geisio cynnal digwyddiad gydag awduron, cofiwch bod angen gwneud cais am nawdd o leiaf deufis cyn eich digwyddiad e.e. y dyddiad cau ar gyfer digwyddiadau ym mis Tachwedd 2026 yw 30 Medi 2026.
Mae'r broses ymgeisio am nawdd yn syml ac yn gyflym. Gwiriwch ein dyddiadau cau ar wefan Llenyddiaeth Cymru; cysylltwch gyda'r awdur(on) a chadarnhewch manylion y digwyddiad ynghyd â ffi eich awdur; a llenwch ffurflen gais Ysbrydoli Cymunedau ar-lein. Ewch draw i'n gwefan am fanylion llawn ar 'Sut i Wneud Cais' a darllenwch ein 'Cyngor i Drefnwyr Digwyddiadau' a manylion 'Cymhwystra'.
Os ydych yn chwilio am syniadau a manylion awduron, ewch i 'Rhestr Awduron Cymru' ar wefan Llenyddiaeth Cymru.
Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â Chronfa Ysbrydoli Cymunedau, mae croeso i chi gysylltu â ni: nawdd@llenyddiaethcymru.org

Petra Bennett

O 'STEDDFOD I 'STEDDFOD

Llongyfarchiadau!

Manylion, canlyniadau a mwy o luniau ar www.steddfota.cymru

EISTEDDFOD RHYS THOMAS JAMES LLANBEDR PONT STEFFAN







EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANWRTYD






EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANARTH









EISTEDDFOD GADEIRIOL BANCFFOSFELEN






EISTEDDFOD GADEIRIOL FELINFACH






EISTEDDFOD GADEIRIOL TREFEGLWYS






EISTEDDFOD GADEIRIOL CWMYSTWYTH



EISTEDDFOD GADEIRIOL Y TYMBL






EISTEDDFOD LLANDYRNOG







GYDA DIOLCH I'R HOLL FFOTOGRAFFWYR

EISTEDDFOD Y GARREG LAS

Cawsom wythnos brysur a hwylus ar faes Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu at ein gweithgareddau.

















Llongyfarchiadau mawr i enillydd Tlws yr Ifanc 2025-26, Gwenan Scourfield, ac hefyd i gôr buddugol Cystadleuaeth Gorawl y Gymdeithas - Côr Bryn Owain.

Diolch iddynt am gefnogi eisteddfodau lleol ar hyd y flwyddyn.

Y RAFFL



Gyda diolch i'n noddwr hael, Teithiau Elfyn Thomas, tynnwyd Raffl 2026 ar Sadwrn olaf yr Eisteddfod Genedlaethol.
Llongyfarchiadau i'r enillwyr lwcus.

Erbyn hyn, mae'n bryd edrych tuag at Raffl 2027, a byddwn yn rhannu cyflenwad o docynnau gydag eisteddfodau yn ystod y cyfarfod/ hyfforddiant yn Aberystwyth ar Ionawr 30. Byddwn yn trefnu dosbarthu i'r rhai sy'n cynnal eisteddfodau cyn hynny, dros yr wythnosau nesaf.

Mae'r raffl, sydd wedi ei noddi eto gan gwmni Teithiau Elfyn Thomas, yn gyfle arbennig i godi arian i'ch eisteddfod.

Bydd pob eisteddfod yn derbyn 10 llyfr, i ddechrau (gallwch holi am fwy os dymunwch wneud mwy o arian!) a gofynnir i chi ddychwelyd **£20** o'r gwerthiant, a'r bonion i Sian/Lois.
Eich eisteddfod chi sy'n cadw gweddill yr arian.

TEITHIAU ELFYN THOMAS TOURS

Cystadleuaeth

ENGLYN CERDYN NADOLIG

Mae anfon englynion mewn cerdyn i ddathlu gwahanol achlysuron yn rhan o'n traddodiad barddol, ac mae englyn i ddathlu gwahanol achlysuron yn aml i'w gweld yn rhestrau testunau ein heisteddfodau lleol.



Gan nad oes rhyw lawer o eisteddfota dros gyfnod prysur y Nadolig dyma roi cyfle i chi feirdd anfon eich Englynion Nadolig atom am gyfle i ennill £30, £20 a £10.

Beirniad y gystadleuaeth hon fydd un sydd wedi anfon englyn mewn cardiau Nadolig am dros ddeugain mlynedd - y cyn-Archdderwydd Myrddin ap Dafydd.



Anfonwch eich englyn/ion at sian@steddfota.cymru

DYDDIAD CAU: Hanner dydd 11/12/26

Sian Evans (Swyddog Datblygu)
sian@steddfota.cymru 07795164911



Lois Williams (Swyddog Cyfathrebu)
lois@steddfota.cymru 07717842556



SIAWNS AM SGWRS

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

Yn ddiweddar, fel rhan o'r gwaith i ddatblygu partneriaethau gydag amrywiol fudiadau, derbyniodd Sian, Swyddog Datblygu Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, wahoddiad i siarad mewn digwyddiad ar-lein gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
Roedd yn gyfle arbennig i siarad gyda Dysgwyr o bob lefel am waith y Gymdeithas, beth yw eisteddfod leol a sut y gall Dysgwyr ymwneud ag eisteddfodau.
Byddwn yn parhau i ddatblygu ar y berthynas hon gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac yn gobeithio gallu cynnig mwy o brofiadau i Ddysgwyr ac i aelodau Cymdeithas Eisteddfodau Cymru dros y misoedd nesaf.

CYNLLUN MENTORA

Fel rhan o'r cynllun a lansiwyd ar y cyd rhwng Cymdeithas Eisteddfodau Cymru a'r Urdd, daeth 20 o bobl ifanc rhwng 18 a 25 ynghyd yn Aberystwyth ar ddiwedd mis Hydref, ar gyfer sesiwn mentora Beirniadu, Arwain a Hyfforddi, dan arweiniad Anni Llŷn, Huw Foulkes a Gavin Ashcroft.







Rydym yn ddiolchgar i'r 3 mentor am rannu'u harbenigedd, a'r cam nesaf i ni fel Cymdeithas, fydd cysylltu gydag eisteddfodau lleol i drefnu profiadau ymarferol i'r bobl ifanc. Ein gobaith yn y pen draw yw y bydd y cynllun yn rhoi hwb i do newydd o ieuenctid i gefnogi'r traddodiad eisteddfota yng Nghymru.

DERBYN GWAITH TRWY E-BOST

Cafwyd adborth diweddar yn nodi bod cystadleuwyr yn rhwystredig nad oedd modd cystadlu drwy e-bost yng nghystadlaethau llenyddol pob eisteddfod
Deallwn y gallai gweinyddu hyn fod yn gymhleth ac yn waith ychwanegol i wirfoddolwyr, felly rydym am gynnig cymorth i'r eisteddfodau hynny sy'n ei chael hi'n anodd gwneud hyn.

Byddwn yn cysylltu'n fuan gyda phob eisteddfod nad ydynt yn cynnig opsiwn cystadlu drwy e-bost, ond mae croeso i unrhyw sydd am gymorth cyn hynny gysylltu'n uniongyrchol gyda Sian.

EISTEDDFODAU 2026-2027

CEFNOGWCH EICH 'STEDDFOD LEOL!

Gweler ddyddiadau eisteddfodau'r misoedd i ddod, gyda digon o ddewis i 'steddfotwyr brwd!
Mae'n debygol nad yw'r rhestr hon yn gyflawn, felly cofiwch bod y rhestr ar www.steddfota.cymru yn cael ei diweddaru wrth i ni dderbyn unrhyw wybodaeth am ddyddiadau. Bydd y rhestrau testunau ar gael i'w lawrlwytho yn ogystal, unwaith y byddwn wedi'u derbyn gan eisteddfodau.
Gofynnwn yn garedig, felly, i bwyllgorau gysylltu cyn gynted â byddwch wedi sefydlu dyddiad eich eisteddfod.

7 Tach.	Eisteddfod Gadeiriol Llanrhaeadr ym Mochnant	Elen Roberts	eisteddfodllanrhaeadrym@gmail.com	07972318192
14 Tach.	Gŵyl Cerdd Dant Caernarfon	www.cerdd-dant.org		
14 Tach.	Eisteddfod y Rhondda	Lisa Sheppard-Thomas	EisteddfodYRhondda@gmail.com	07792175033
		Seren Hâf MacMillan		
20-21 Tach.	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen	Lowri Watcyn Roberts	l.roberts11@btinternet.com	07815093955
21 Tach.	Eisteddfod Cwmdu	Jean Huxley	huxleypig10@hotmail.com	01824 730282
28 Tach.	Eisteddfod Gadeiriol Aelhaearn	Mary C Jones	mary.jones17@btinternet.com	07879825459
28 Tach.	Eisteddfod Gadeiriol Abergorlech	Heulwen Francis	eisteddfodabergorlech@gmail.com	01558 685398
		Bethan Griffiths		
16 Ionawr	Eisteddfod Gadeiriol Nefyn	Nia Midwood	eisteddfodgadeiriolnefyn@gmail.com	-
23 Ionawr	Eisteddfod Gadeiriol Chwilog	Gwyn Parry Williams	gwynarhian@btinternet.com	01766 810717
23 Ionawr	Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd	Gaenor Mai Jones	cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru	-
30 Ionawr	Eisteddfod Garndolbenmaen	Esyllt Williams	esylltport@yahoo.com	-
6 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol y Felinheli	Elen Gwenllïan	eisteddfodfelinheli@gmail.com	-
6 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog	Kim Lloyd Jones	kimlloydjones@icloud.com	-
		Geraint Roberts (Llên)	geraintroberts@btinternet.com	-
6 Chwefror	Eisteddfod Llawrplwy' a Phenstryd	Menna Davies	mennadolgain@gmail.com	-
13 Chwefror	Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn	Ceinwen Jones	ctjones10@outlook.com	01654 782243
13 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol Brynberian	Rhinedd Williams	Rhinedd_williams@hotmail.co.uk	-
		Catrin Phillips	catrinphillips82@hotmail.com	-
19 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol Mynydd y Garreg	Christine Evans	christineevans2@icloud.com	07811052017
20 Chwefror	Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r Plwyf	Margaret Bowen	wernmacwydd@btinternet.com	01559 362215
20 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn	Teleri Roberts	teleri.roberts@outlook.com	07779658424
26 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol Swyddffynnon	Annwen Isaac	annwen.isaac@btinternet.com	01974 831668
26 Chwefror	Eisteddfod Tyddewi	Wiliam Owen	wiliamowen@aol.com	07598 550282
27 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol Crymych	Ann Siriol Davies	ann_capel@yahoo.co.uk	01994 419268
		Awen Evans	alwyn.evans@btconnect.com	01239 891637
5 Mawrth	Eisteddfod Cymdeithas Ceredigion	Gwenda Evans	gwendaevans257@btinternet.com	01239 654552
19-20 Mawrth	Eisteddfod Gadeiriol Tregaron	Eirwen James	eirwen.tymawr@live.co.uk	-
2 Ebrill	Eisteddfod Gadeiriol Bryngwenith	Parch. Carys-Ann	post@carys-ann.cymru	01239 851005
10 Ebrill	Eisteddfod Gadeiriol Mynytho	Dilwyn Thomas	thomasdilwyn5@gmail.com	07979733123
16-17 Ebrill	Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch	Ceris Gruffudd	Ceris.Gruffudd@gmail.com	01970 828017
17 Ebrill	Eisteddfod Nedd	Eleri Sparnon Jones	elerisjones@hotmail.com	-
23 Ebrill	Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis	Sian Davies	Eisteddfod.rhydlewis@gmail.com	-
24 Ebrill	Eisteddfod y Groeslon	Emma Lloyd Edwards	emma.lloydedwards@btinternet.com	07786983542
24 Ebrill	Eisteddfod Gadeiriol y Ffôr	Sioned Llwyd Williams	eisteddfodyffor@outlook.com	-
3 Mai	Eisteddfod Gadeiriol Maenclochog	Catrin Williams	evansawilliams@hotmail.co.uk	07837512984
		Carol Nicholas	carolannnich@gmail.com	07971073864
15 Mai	Eisteddfod Gadeiriol Llandudoch	Terwyn Tomos	ellandudoch@gmail.com	07972033183
15 Mai	Eisteddfod Môn Bro Parys	Alwen Jones	eisteddfodmon2027@gmail.com	07861379340
29 Mai-4 Meh	Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen	www.urdd.cymru	-	-